

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>9 Tachwedd 2020</b>
<b>TEITL</b>	<b>Protocol Cyfarfodydd Rhithiol</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Swyddog Monitro</b>

## **Cefndir**

1. Yn sgil yr argyfwng COVID – 19 ym Mis Mawrth a gosod cyfyngiadau Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ( fel y'i diwigwyd) gorfu atal holl gyfarfodydd statudol democrataidd y Cyngor . Daeth y modd technolegol o gynnal cyfarfodydd rhithiol ar waith yn eithaf sydyn. Fodd bynnag roedd fframwaith gyfreithiol o ran yr angen am bresenoldeb ffisegol mewn cyfarfod ynghyd a hawliau mynediad y cyhoedd â'r wasg yn golygu nad oedd modd cynnal cyfarfod rhithiol heb dramgwyddo nifer o ddeddfwriaethau llywodraeth leol. Yn ychwanegol roedd cyfyngiadau statudol ar y canran o aelodau all fynychu cyfarfod o bell .
2. Nid oedd y sefyllfa yma yn gynaliadwy o ran llywodraethu y Cyngorau gan nad oedd modd gwneud penderfyniadau o sylwedd dim ond ar sail trefniadau brys. Roedd hefyd faterion megis cynnal Cyfarfodydd Blynyddol a phenodi Cadeirydd y Cyngor oedd yn rhaid eu gweithredu o fewn amserlen statudol. O ganlyniad drwy gyd weithio rhwng y Llywodraeth a Llywodraeth Leol bathwyd Rheoliadau oedd yn clirio'r ffordd ar gyfer ail gychwyn cyfarfodydd ar sail hollol rhithiol. Daeth y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 i rym ar y 22ain o Ebrill 2020. Roedd modd felly dechrau cynnal cyfarfodydd yn rhithiol.
3. Drwy raglen waith oedd yn blaenoriaethu cyfarfodydd yn ôl yr angen mae'r Cyngor wedi llwyddo i adfer ei gyfarfodydd democrataidd yn helaeth er fod gwaith yn parhau ar ddatblygu y trefniadau. Er hwyluso hyn a darparu arweiniad paratowyd Protocolau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol oedd yn gosod canllawiau a chymorth i aelodau a swyddogion ynglŷn a chyfarfodydd o'r fath a sut i ymwneud a'r cyd destun newydd. Mae copi o Brotocol generig ar gyfer cyfarfodydd wedi ei atodi. Gwahoddir chi i ystyried y Protocol o safbwynt y Pwyllgor Safonau.

## **Argymhelliad**

### **Derbyn y Wybodaeth**

### **Atodiad 1**

Protocol Cyfarfodydd Rhithiol